

3

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Chodi Arian Elusennol:

Codi arian cymunedol dan y chwyddwydr

Cynhyrchwyd gan:



Adolygwyd gan:



Cyflwyniad

Daw'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (y Rheoliad) i rym ar 25 Mai 2018 i ddiweddarau'r fframwaith diogelu data presennol yn y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn cwmpasu pob sector a phob sefydliad - sy'n golygu bod rhaid i bobl mewn gwahanol sefydliadau feddwl am y data personol y gallent fod yn ei brosesu a rhoi'r egwyddorion ar waith yn eu maes gwaith nhw.

Codi arian cymunedol

Mae codi arian cymunedol a chodi arian digwyddiadau yn dermau eang, ond yng nghydestun y canllaw hwn mae'n golygu gweithio yn eich cymuned leol gyda phobl, cwmnïau a gwirfoddolwyr i gynnal digwyddiadau neu weithgareddau ac ymgyrchoedd codi arian lleol.

Materion allweddol ar gyfer codwyr arian cymunedol

Mae'r Rheoliad yn gymwys i 'ddata personol', sy'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r wybodaeth honno - mae hyn yn cynnwys enw, cyfeiriad, manylion cyswllt ond gallai hefyd gynnwys dwy neu ragor o ddarnau o wybodaeth amhenodol a allai, o'u cyfuno, enwi unigolion penodol gan gynnwys, er enghraifft, cyfuniad o ryw, dyddiad geni, dangosydd daearyddol a disgrifwyr eraill.

Gall elusennau a chodwyr arian cymunedol brosesu data personol mewn amryw o gyd-destunau codi arian cymunedol, gan gynnwys:

- hyrwyddo gwaith yr elusen a cheisio cyllid gan unigolion.
- ymchwil, er enghraifft wrth enwi unigolion o'r gymuned leol a allai gefnogi amcanion yr elusen neu gael adborth ar ddulliau codi arian newydd a gweithgareddau y rhoddwyd cynnig arnynt ar lefel leol.
- storio data personol, er enghraifft wrth gadw cofnodion o gefnogwyr, rhoddwyr, gwirfoddolwyr, buddiolwyr neu gysylltiadau defnyddiol eraill o fewn y gymuned leol.
- cefnogi mentrau codi arian lleol (uniongyrchol neu anuniongyrchol) gan unigolion.

Pryd bynnag y byddwch yn 'prosesu' data bydd rhaid i chi wneud hynny mewn ffordd deg a chyfreithlon. Hefyd bydd rhaid i chi gadw'r data yn ddiogel a chymryd camau i sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfoes.

Wrth brosesu data personol, mae'n rhaid i chi ystyried dau fater allweddol:

- pa ddibenion yr hoffech brosesu'r dyddiad ar gyfer eu cyfer; a sut y byddwch yn dangos bod y data wedi cael ei brosesu'n gyfreithlon. (Mae diffiniad llawnach o "ddata personol" i'w weld yn <https://ico.org.uk/>)

Cwestiynau allweddol i godwyr arian cymunedol eu gofyn am Rheoliad

1. Allwn ni anfon deunyddiau cyfathrebu sy'n hysbysebu digwyddiadau codi arian/cymunedol i bobl unigol?

Gallwch, ond os ydych yn prosesu data personol i anfon y deunyddiau cyfathrebu hyn at unigolion penodol byddwch yn gwneud marchnata uniongyrchol ac felly bydd angen sail gyfreithlon arnoch (gweler **Papur Briffio 2** i gael rhagor o wybodaeth) o dan y Rheoliad i wneud hynny. Ar gyfer post a galwadau ffôn byw (os nad yw'r rhifau wedi'u cofrestru gyda'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad), efallai y gallwch ddibynnu ar fudd cyfreithlon eich sefydliad neu gydsyniad yr unigolyn i wneud hynny. Ar gyfer cyfathrebu electronig (e-bost, testun, galwadau ffôn wedi'u recordio neu ffonio rhifau sydd wedi'u cofrestru ar y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn) gallwch anfon deunyddiau marchnata uniongyrchol dim ond os oes gennych chi gydsyniad yr unigolyn. I gael rhagor o wybodaeth am gydsyniad a budd cyfreithlon, gweler **Papur Briffio 2**.

2. Am faint fydd y cydsyniad yn para neu am faint fyddwn ni'n gallu defnyddio budd cyfreithlon i gyfathrebu â chefnogwyr?

Mae am faint fydd y cydsyniad yn para neu am faint y gallwch chi ddefnyddio budd cyfreithlon yn dibynnu pa ddiben rydych yn defnyddio data unigolyn ar ei gyfer. Dylech ddweud wrth yr unigolyn beth yw'ch dibenion naill ai pan gewch ei gydsyniad neu, yn achos budd cyfreithlon, trwy roi gwybodaeth sy'n esbonio sut y byddwch yn defnyddio ei ddata.

Os nad yw'ch dibenion ar gyfer defnyddio data personol yn berthnasol mwyach, rhaid i chi naill ai ddileu'r data neu (mewn achosion lle rydych yn nodi diben newydd ar gyfer ei gadw), naill ai geisio cydsyniad newydd neu, os ydych yn defnyddio budd cyfreithlon fel eich sail, anfon gwybodaeth breifatrwydd wedi'i diweddaru sy'n esbonio pam a sut rydych yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r data a'r dibenion newydd ar gyfer gwneud hynny. Dylech adolygu'ch data yn gyson er mwyn sicrhau bod eich diben dros gysylltu â'r unigolyn heb newid.

Hefyd mae'n rhaid i chi roi cyfleoedd hawdd i bobl dynnu eu cydsyniad yn ôl neu roi'r gorau i glywed gennych chi. Bydd rhaid i chi asesu am faint rydych chi'n meddwl ei bod hi'n rhesymol i barhau i gyfathrebu â phobl a gallu cyfiawnhau'r cyfnod cadw hwn a'i esbonio'n glir yn eich polisïau preifatrwydd. Mae paragraffau 63, 97 a 99 o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yr [Canllawiau Marchnata Uniongyrchol](#) yn amlinellu rhai ffactorau i ystyried pa mor aml i chi adolygu eich cydsyniad efo unigolion neu adnewyddu gwybodaeth preifatrwydd.

3. Roedd cefnogwr wedi rhedeg marathon i ni y llynedd a chodi arian trwy gael ei nodd. Pan gofrestrodd gofynnon ni am ei gydsyniad i dderbyn deunyddiau marchnata parhaus, ond ni roddodd ei gydsyniad. Oes hawl gennym ni gysylltu ag ef eleni i holi a fyddai'n hoffi cymryd rhan eto?

Oherwydd eich bod chi wedi gofyn i'r unigolyn am ei gydsyniad ac ni roddodd ei gydsyniad, mae'n golygu na allwch ddefnyddio cydsyniad fel sail gyfreithlon i anfon negeseuon marchnata uniongyrchol ato (sy'n cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau yn y dyfodol). Os ydych wedi ceisio cydsyniad fel eich sail ar gyfer cysylltu ac ni chawsoch gydsyniad, mae hefyd yn golygu y gall fod yn fwy anodd i ddangos budd cyfreithlon fel sail gyfreithlon ar gyfer anfon deunyddiau cyfathrebu dilynol oherwydd rhaid i'ch Aseiad Budd Cyfreithlon ystyried bod cydsyniad wedi cael ei geisio'n flaenorol ond nid oedd yr unigolyn wedi'i roi.

Felly meddyliwch yn ofalus cyn penderfynu mai cydsyniad yw'r sail gywir i'w defnyddio i gysylltu â chefnogwyr. Os ydych yn ceisio cydsyniad, mae'n golygu bod rhaid i chi fod yn barod i gynnig dewis go iawn i'r unigolyn a pharchu'r canlyniad. Pe byddech yn parhau i brosesu'r data personol heb gydsyniad, mae gofyn am gydsyniad yn gamarweiniol ac yn annheg.

4. Os yw unigolyn yn gwneud digwyddiad her ac yn codi arian ar gyfer nawdd, allwn ni ddilyn hyn i fyny i ddiolch i'r bobl sy'n rhoi a holi i weld a hoffent glywed mwy am ein helusen?

Byddai'r math penodol hwn o gyfathrebu ag unigolion yn cael ei ystyried yn fath o farchnata uniongyrchol, ac felly byddai angen sail gyfreithlon arnoch i anfon unrhyw ddeunyddiau (cydsyniad neu fudd cyfreithlon, yn dibynnu ar eich gallu i fodloni'r amodau ar gyfer defnyddio un o'r seiliau cyfreithlon hyn, ac a yw cydsyniad yn gymwys neu beidio ar gyfer y sianel rydych am ei defnyddio i gyfathrebu â nhw - gweler Cwestiwn 1). Meddyliwch sut a phryd y bydd pobl yn darparu eu data personol - os yw'r nawdd yn mynd trwy lwyfan codi arian ar-lein, yna dylai'r holl hysbysiadau preifatrwydd cywir fod yn bresennol ar y safle adeg y rhodd, gyda chyfleoedd clir i'r unigolyn ddewis clywed neu beidio gan yr elusen a sut i glywed ganddi yn y dyfodol. Os ydych yn darparu ffurflenni noddol papur i unigolion eu llenwi, bydd rhaid i chi gynnwys yr wybodaeth breifatrwydd gywir a rhoi cyfle i bobl ddewis a hoffent gael cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol pellach neu beidio yn y dyfodol trwy ofyn am gydsyniad neu ddibynnu ar eich budd cyfreithlon.

Hefyd, cofiwch nid yw derbyn gwybodaeth bersonol er mwyn gallu hawlio Rhodd Cymorth ar rodd yn rhoi caniatâd i chi ddefnyddio'r wybodaeth honno ar gyfer marchnata uniongyrchol.

5. Os ydym yn cynnal digwyddiad (fel ffair neu ffair haf) lle y gall unrhyw un ddod heb gofrestru, sut gallwn ni ddilyn hyn i fyny i anfon rhagor o wybodaeth atynt am ein helusen a sut y gall pobl gymryd rhan wedi hynny?

Byddai cyfathrebu dilynol i roi rhagor o wybodaeth am yr elusen yn cael ei ystyried yn fath o farchnata uniongyrchol, felly rhaid i chi gael sail gyfreithlon i gyfathrebu. Gallwch gael ffurflenni cofrestru ar ddiwrnod y digwyddiad er mwyn i bobl allu roi eu manylion e-bost neu gyswllt i chi, ond bydd rhaid i chi gael yr hysbysiadau preifatrwydd cywir ar unrhyw ffurflenni cofrestru a rhoi gwybodaeth glir i bobl yn esbonio pa ddeunyddiau marchnata y byddant yn eu derbyn yn ogystal â rhoi cyfle clir iddynt ddewis a ydynt am dderbyn deunyddiau marchnata gennych chi yn y dyfodol. Gall cydsyniad gael ei roi yn electronig (ar wefan elusen) trwy ddull gweithredol megis blwch ticio 'optio i mewn' ar ffurflen bapur, neu drwy weithred gadarnhaol (er enghraifft, rhoi cerdyn busnes mewn powlen), ar yr amod ei bod hi'n hollol glir bod yr unigolyn, drwy wneud hyn, yn rhoi ei gydsyniad i chi anfon deunyddiau marchnata uniongyrchol ato a bod y cydsyniad yn cael ei roi o'i wirfodd.

6. Pa wybodaeth bersonol ddylai codwyr arian cymunedol ei chadw (neu beidio â'i chadw) ar eu gliwiaduron a'u cofnodion eu hunain?

Efallai yr hoffai codwyr arian cymunedol storio amrywiaeth o ddata personol i gynnal eu hymgyrch, er enghraifft manylion cyswllt pobl leol sy'n rhoi, busnesau a chefnogwyr. Y cwestiynau allweddol y bydd angen iddynt eu hateb er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad yw:

- Ar gyfer pa ddibenion penodol y mae angen i mi storio neu ddefnyddio data personol yr unigolyn hwn (er enghraifft, anfon ceisiadau codi arian neu roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd prosiect neu ddigwyddiad)?
- Pa sail gyfreithlon ydw i'n ei defnyddio i brosesu eu data (er enghraifft, cydsyniad neu fudd cyfreithlon)?
- Allai i ddangos fy mod i'n defnyddio'r sail gyfreithlon hon mewn ffordd deg a phriodol (mae rhagor o wybodaeth ym **Mhapur Briffio 2** ar yr hyn y mae angen i chi ei wneud i fodloni'r prawf tegwch ar gyfer cydsyniad neu fudd cyfreithlon)?
- Ydw i'n rhoi gwybod i'r unigolyn sut rwyf yn defnyddio ei ddata personol ac at ba ddiben rwyf yn ei ddefnyddio (naill ai trwy ffurflen gydsyniad neu'r wybodaeth preifatrwydd data rwy'n ei rhoi iddynt)?

-
- Ydw i'n cynnig cyfle i'r unigolyn wrthwynebu fy mwriad i ddefnyddio'r data hwnnw yn y ffordd hon (naill ai trwy ffurflen gydsyniad neu'r wybodaeth preifatrwydd data a roddais iddo)?

Os yw elusen yn gwybod bod codwr arian gwirfoddol yn cynnal ymgyrch er budd ei gwaith, ond nid yw'n ymwneud yn uniongyrchol â phrosesu unrhyw ddata, mae'n ddoeth rhoi gwybod i'r gwirfoddolwr am ei rwymedigaethau cyfreithiol o ran storio a defnyddio data personol, fel y nodir yn y Cod Ymarfer Codi Arian.

Os yw codwr arian gwirfoddolwr yn gweithredu'n fwy uniongyrchol ar ran yr elusen, bydd y cwestiynau uchod ynghylch diben a sail gyfreithlon ar gyfer prosesu yn gymwys yn yr un modd. Fodd bynnag, dylai'r sefydliad hefyd ystyried a oes angen i'r unigolyn hwnnw brosesu data personol yn annibynnol i gyflawni ei ddibenion, neu a allai fod yn fwy priodol i'r sefydliad ei hun brosesu'r data yn ganolog. Os yw'r codwr arian gwirfoddol yn prosesu gwybodaeth ar ran y sefydliad, dylai fod prosesau diogelu data cytûn rhwng y sefydliad a'r unigolyn.

7. Am faint ddylai data personol gael ei gadw?

Rhaid i ddata personol gael ei gadw dim ond cyhyd ag y bo angen i gyflawni'r diben y cafodd ei brosesu ar ei gyfer (gweler Cwestiwn 2). Pan fydd y diben hwnnw yn dod i ben, rhaid i chi naill ai ddileu'r data neu fynd yn ôl i'r unigolyn i roi gwybod iddo fod eich diben prosesu wedi newid, a sut. Dylid ystyried a yw dal data personol yn angenrheidiol mewn gwirionedd er mwyn cyflawni'r diben (er enghraifft, efallai yr hoffech gadw data ystadegol ar y rhai sy'n cymryd rhan mewn marathon bob blwyddyn, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod rhaid i chi gadw data personol ar gyfer pob un sy'n cymryd rhan).

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n glir ynghylch y canlynol:

- pa ddata personol rydych yn ei ddal
- pa sail gyfreithlon rydych yn ei defnyddio i'w ddal
- a yw'r diben rydych wedi bod yn ei brosesu ar ei gyfer yn dal i fod yn gymwys; ac os ydw
- sut y byddwch yn cadw'r data yn gywir ac yn gyfoes

Beth arall allai fod angen i ni ei ystyried?

Gweinyddu digwyddiad yn erbyn marchnata digwyddiad

Pan fydd angen i elusen gael sail gyfreithlon ar gyfer anfon deunyddiau cyfathrebu ynghylch digwyddiad, os ydych yn anfon deunyddiau cyfathrebu at ddiben gweinyddol go iawn sydd heb ei gysylltu â "marchnata uniongyrchol" yna nid yw'r rheolau cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol yn gymwys. Felly os yw unigolyn yn cofrestru i gymryd rhan mewn digwyddiad rydych yn ei redeg (e.e. marathon), byddech yn gallu cysylltu ag ef at ddibenion gweinyddol i roi'r wybodaeth am y digwyddiad (er enghraifft, ble mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal a'r amser dechrau).

Cyfeirio ac adnoddau:

ICO

Canllaw i'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>

Canllaw Marchnata Uniongyrchol:

<https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1555/direct-marketing-guidance.pdf>

Asesiadau effaith diogelu data

<https://ico.org.uk//for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/accountability-and-governance/data-protection-impact-assessments/>

Y Rheoleiddiwr Codi Arian

Cod Ymarfer Codi Arian

<https://www.fundraisingregulator.org.uk/code>

Llyfrgell diogelu data: Arweiniad a gwybodaeth Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

<https://www.fundraisingregulator.org.uk/more-from-us/resources/data-protection-library-general-data-protection-regulation-gdpr-guidance-and>

IoF

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol: Yr Hanfodion ar gyfer Sefydliadau Codi Arian

<https://www.institute-of-fundraising.org.uk/library/gdpr-the-essentials-for-fundraising-organisations/>

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol - canolbwyntio ar farchnata uniongyrchol:

<https://www.institute-of-fundraising.org.uk/library/gdpr-focus-on-direct-marketing/>

Cefnogwyd gan:



CHARITY COMMISSION
FOR ENGLAND AND WALES

The **Charity**
Commission
for Northern Ireland

Scottish
Fundraising
Standards
Panel

Legal
Open
Honest
Respectful

NCHO



nicva